

Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth (ASC)

Mae **Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth (ASC)** neu **Awtistiaeth** yn anabledd datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar sut mae person yn cyfathrebu, a sut mae'n cael profiad o'r byd o'i gwmpas.' (Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol 2015).

Yn draddodiadol, ystyrid mai set o dri anhawster oedd ASC; cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio cymdeithasol a dychymyg cymdeithasol. Fodd bynnag, yn ôl dadansoddiadau cyfredol, nodir dau – cyfathrebu cymdeithasol a phatrymau ymddwyn, diddordebau neu weithgareddau ailadroddus, cyfyngedig; mae ymddygiadau synhwyrdd hefyd wedi eu cynnwys.

Yn aml, mae gan y rhai sydd ag ASC gweithredol uwch allu uchel ond sgiliau cymdeithasol gwael am nad yw'n bosibl iddynt gydymdeimlo ag eraill bob tro. 'Dallineb meddwl' yw'r enw a roddir ar y cyflwr ar lafar gwlad oherwydd yr anallu i 'ddarllen' meddwl rhywun arall.

Gall ASC gydfodoli â chyflyrau eraill megis dyslecsia, dyspraxia neu ddyscalculia.

Weithiau bydd gan bobl sydd ag ASC ymwybyddiaeth synhwyrdd uwch, ac yn ymateb i symbyliadau nad yw eraill yn sylwi arnynt. Gall hyn olygu bod synau, aroglau, goleuadau a theimladau yn erbyn y croen yn mynd yn ymwithiol ac yn tynnu sylw.

Mae'r rhai sydd ag ASC, fel rheol, hefyd yn datblygu diddordeb ac arbenigedd arbennig mewn un maes penodol.

Yn aml mae gan y myfyriwr sydd ag ASC gryfderau rhyfeddol. Nodwedd gyffredin yw bod gan rai gof ardderchog, yn enwedig am ffeithiau a ffigurau. Gallant fod yn orfanwl, gyda ffocws a llygad dda am fanylder a gwallau. Yn aml maent yn onest, yn gydwybodol, yn wreiddiol ac yn dda gydag ieithoedd tramor. Mae nifer o fyfyrwyr sydd ag ASC yn manteisio ar y cryfderau hyn ac yn dewis pynciau megis mathemateg, gwyddoniaeth a chyfrifiadura i'w hastudio ar lefel prifysgol.

Cynghorion Defnyddiol i Staff Academaidd

- Mae myfyrwyr sydd ag ASC yn unigolion yn bennaf, gyda'u personoliaeth unigryw eu hunain
- Er mwyn cael perthynas weithio effeithiol, mae angen cyfuno gwybodaeth gyffredinol am ASC â gwybodaeth benodol am y myfyriwr unigol

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.autism.org.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch a'ch Cydlynnydd Cymorth Dysgu